



## Ysgol amgen yn newid bywydau pobl ifanc 'ddiobaith' yn llwyr

**Cafodd bywydau plant problemus oedd mewn perygl o adael addysg y brif ffrwd yn gyfan gwbl eu newid yn llwyr o fewn llai na blwyddyn gan Alternative Learning Company (TALC).**

Mae grŵp o bobl ifanc nad oedd eu dyfodol yn addawol iawn wedi cael cymorth i ennill cymwysterau a symud ymlaen i addysg bellach hyd yn oed gan TALC, darparwr addysg amgen sy'n rhoi ail gyfle i bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio ac sy'n anodd eu cyrraedd.

Er mawr dristwch, roedd nifer o'r bobl ifanc hyn mewn perygl o ddiodef o gamfanteisio rhywiol ac roedd gan sawl un ohonynt broblemau cysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau. Nid yn unig hynny, roedd amryw ohonynt yn byw heb eu rhieni (a oedd yn aml yn delio ag anawsterau cysylltiedig â'u hiechyd eu hunain). Mae llawer o'r bobl ifanc yn diodef o ystod eang o anawsterau cymdeithasol/emosiynol ac mae eraill yn delio gydag ADHD neu awtistiaeth.

Ar ôl ymyrraeth TALC fodd bynnag, o'r 15 unigolyn blwyddyn 11 y cydweithiwyd â hwy ym mlwyddyn gyntaf y sefydliad, bob un ohonynt yn unigolion y disgwyliwyd iddynt fynd ymlaen i gategori NEET (dim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant), mae bob un ohonynt wedi mynd ymlaen i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant, sy'n wirioneddol anhygoel.

Mae Marcus\* yn ddisgybl sydd â phroblemau rheoli dicter a chychwynnodd gyda TALC y llynedd. Gwelwyd ei ymddygiad yn gwella'n sylweddol wrth ennill y sgiliau i fod yn gyfrifol am ei deimladau ei hun.

Meddai 'Yn yr ysgol, os wyt ti'n gwneud rhywbeth o'i le, rwyt ti'n cael dy hel allan, ond yn fan hyn maen nhw'n rhoi cyfle iti. Dydw i ddim yn synnu bod pawb yn dal yma achos maen nhw'n rhoi cyfleoedd iddyn nhw.

'Mae fan hyn yn llawer gwell na'r ysgol. Fyddwn i ddim eisiau mynd yn ôl i'r ysgol. Mae pawb yn neis yma. Dwi'n meddwl mod i wedi dysgu mwy yma nag yn yr ysgol. Roeddwn i'n arfer bod yn ddrwg a chael fy hel allan. Rydw i'n dod yma bob dydd. Fe

fyddwn i'n dod yma dros y penwythnos hyd yn oed... ond nid ar ddydd Sul mae'n debyg.'

Nid yw'n syndod bod ymddygiad llawer o'r pant yn heriol â hwythau'n dod o gefndiroedd mor gythryblus. Ar y dechrau, cafwyd trafferth gyda phlant yn dod i'r ysgol yn feddw neu ar gyffuriau ac roedd yn rhaid dwyn perswâd arnynt i adael llonydd i'r alcohol a'r cyffuriau. 'I'r plant sy'n cyrraedd, dydyn ni'n ddim byd mwy na chriw o oedolion' meddai Holly Nicholl, sy'n rheoli'r ganolfan ddysgu 'ac yn waeth fyth – criw o athrawon, ond rydym ni wedi llwyddo i ddatblygu cysylltiadau gwirioneddol.'

Gwelir bylchau difrifol yng nghefndiroedd addysgol rhai o'r plant – er enghraifft, wrth ddysgu am y planedau a chysawd yr haul, dywedodd un disgybl 'dwi ddim eisiau dysgu am y gwledydd yma nawr beth bynnag, dwi ddim yn mynd iddyn nhw'. Doedd un arall ddim yn gwybod bod cig eidion yn dod o wartheg, eraill ddim yn gwybod bod tsips wedi eu gwneud o datws, ac mae hyn cyn i chi fynd i'r afael â materion llythrennedd a rhifedd sylfaenol.

Er gwaethaf y rhwystrau hyn, gorffennodd 50% o'r myfyrwyr gyda phresenoldeb o 70% neu fwy a chyflawni 191 o unedau Agored Cymru, gan arwain at 36 o gymwysterau. Cymerasant ran mewn gwaith cymunedol fel cerdded i fyny Pen y Fan i godi arian at achos da a chodi arian i Comic Relief. Roedd hyn oll ar ôl yr ychydig wythnosau cyntaf, a ddisgrifir fel 'traed moch llwyr' gyda'r heddlu'n cael eu galw ar wyth achlysur. Mewn llai na blwyddyn mae hyn wedi newid yn llwyr.

Camodd TALC i'r bwlch ar ôl derbyn buddsoddiad gan y Gronfa Tyfu Busnesau Cymunedol, wedi'i ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Llywodraeth Cymru a'i weinyddu gan Fuddsoddiad Cymdeithasol Cymru, WCVA.

Mae'r sefydliad addysgol yn rhoi ail gyfle i bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio ac sy'n anodd cyrraedd atynt, plant nad ydynt yn cyrraedd eu potensial yn yr ysgol ac nad yw eu hanghenion yn cael eu bodloni gan addysg y brif ffrwd. Mewn nifer o achosion, golyga hyn roi cyfle i ddisgyblion o gefndiroedd hynod anodd ac ansefydlog. Nid tasg fechan mohoni, ond mae cymorth ariannol gan y Gronfa Tyfu Busnesau Cymunedol wedi helpu Alternative Learning Company i ddod â'r plant yn ôl o ymyl dibyn a rhoi carreg gamu iddynt gael symud tuag at ddyfodol mwy disglair.

Gan weithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Caerfyrddin ac ysgolion lleol, y llynedd oedd blwyddyn gyntaf weithredol y prosiect hwn, gyda disgyblion o flwyddyn 10 ac 11.

Eu dull yw cael gwared â'r rhwystrau y byddech yn eu gweld mewn ysgol nodweddiadol – does dim rhaid galw neb yn Miss neu'n Syr, ac mae pwyslais cryf ar weithgareddau adeiladu tîm, sy'n gofyn bod yr oedolion yn gwneud yr un peth â'r plant. Y nod yw meithrin awyrgylch deuluol nad yw'r disgyblion hyn yn ei chael yn unman arall.

Un o'r rhwystrau y mae angen ei oresgyn, medd Holly, yw 'Mae'r plant wedi clywed erioed "elli di ddim gwneud hyn, elli di ddim gwneud y llall, dwyt ti ddim yn mynd i lwyddo", felly pan maen nhw'n dod atom ni, rydym ni'n dweud "gelli". Mae bob un

ohonyn nhw yn dda am wneud rhywbeth gwahanol, mae'n fater o adnabod eu cryfderau.'

Nid yw hynny'n golygu nad oes nifer o heriau addysgol ar hyd y ffordd. Er nad yw TALC yn ysgol draddodiadol, mae'n sefydliad sy'n ddarostyngedig i arolygiadau gan Estyn ac sydd wedi ei achredu gan CBAC i gyflwyno cyrsiau TGAU a chynnig cwricwlwm sy'n cyd-fynd â safonau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r anghenion ymddygiadol gael eu hateb cyn y gall eu disgyblion fynd i'r afael â gwaith academaidd.

\*enw wedi ei newid i ddiogelu cyfrinachedd

## NODIADAU I OLYGYDDION

- Mae'r Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol yn rhoi cymorth ariannol i fusnesau cymdeithasol yng Nghymru i'w galluogi i dyfu a chreu cyfleoedd am waith. Fe'i hariennir yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Llywodraeth Cymru ac mae'n un o gasgliad o fuddsoddiadau a weinyddir gan Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru yng Nghyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC). I gael rhagor o wybodaeth ewch i <https://www.wcva.org.uk/funding/social-investment-cymru/social-businessgrowth-fund?seq.lang=cy-GB>
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r corff aelodaeth cenedlaethol i fudiadau gwirfoddol yng Nghymru. Rydym yn bodoli i alluogi mudiadau gwirfoddol i wneud mwy o wahaniaeth gyda'n gilydd.
- Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Gerald Davies yn The Alternative Learning Company ar [gerald@altlc.co.uk](mailto:gerald@altlc.co.uk) / 07554 994873 neu Marc Jones neu Simon Dowling yn CGGC ar [marcjones@wcva.cymru](mailto:marcjones@wcva.cymru) / 02920 431722 [sdowling@wcva.cymru](mailto:sdowling@wcva.cymru) / 029 2043 6596. Ffotograffau ar gael ar gais.

*Er mwyn i ni hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghymru a diweddarau ein cysylltiadau yn y wasg ynglŷn â newyddion perthnasol o CGGC cofnodir eich gwybodaeth yn ein cronfa ddata. Darllenwch ein [hysbysiad preifatrwydd](#), sydd ar gael ar wefan CGGC, i gael gwybod sut y bydd eich data'n cael ei ddefnyddio, pwy all gael mynediad ato, y seiliau cyfreithlon dros ddal eich gwybodaeth a'ch hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth hon.*

**Swyddfa Gofrestredig – Prif Swyddfa:** Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH (Swyddfeydd hefyd yn y Rhyl ac Aberystwyth)

**Ffôn:** 0300 111 0124

**Ebost:** [help@wcva.cymru](mailto:help@wcva.cymru)

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Elusen gofrestrdig 218093

Cwmni cyfyngedig drwy warant 425299

Cofrestrwyd yng Nghymru